Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AM
Public Accounts Committee Chair
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

15 Ionawr 2019

Annwyl Mr Ramsay

Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd yn ystod fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 3ydd Rhagfyr a llythyr dilynol y Pwyllgor ar 13eg Rhagfyr.

<u>Gwerthusiad o'r Rhaglen Ariannu Hyblyg</u>
Mae'r gyllideb ar gyfer y contract gwerthuso cyfredol, a ddyfarnwyd i Wavehill ym mis Ebrill 2018, rhwng £90,000 a £100,000 (heb TAW). Er cytunir ar ffocws penodol cyfnod terfynol y gwaith gwerthuso yn gynnar yn 2019, mae'n debygol o ystyried:

- Adolygu gwaith cyflenwi'r cynllun braenaru yn erbyn eu cynlluniau a'r ffactorau a gyfrannodd at y llwyddiant (a/neu'r methiant) i ddysgu gwersi ar gyfer cyflwyno'r rhaglen yn y dyfodol;

- Ystyriaeth bellach o effeithiolrwydd yr opsiwn dau grant;

- Asesu sut y gellir cynnal arbenigedd perthnasol o amgylch yr anghenion mwyaf cymhleth ymhlith staff wrth iddynt symud i rolau sydd o bosib yn fwy cyffredinol;

- Adolygu effeithiau a chanlyniadau cyflwyno'r rhaglen ymhellach ar gyfer awdurdodau lleol a'u staff, rhanddeiliaid a sefydliadau partner (strategol a chyflenwi), strwythurau rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac yn enwedig a yw defnyddwyr gwasanaeth yn dechrau gweld effeithiau o ail-ddylunio'r gwasanaeth; a

- Gwaith pellach i ystyried dull fframwaith canlyniadau a aliniwyd â gwaith Llywodraeth Cymru yn asesu canlyniadau ar draws grantiau presennol.

Bydd y gwerthusiad parhaus yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol a gwerthfawr i gefnogi'r gwaith o gyflwyno trefniadau grant newydd. Yn unol â'ch cyngor ar sicrhau bod yr adroddiad terfynol mor glir â phosib o ran pwysleisio arfer da, gofynnwn i Wavehill ystyried sut y gellir cyflwyno hyn fel rhan o'n trafodaethau parhaus.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Mesur Effeithlonrwydd

Byddwn yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru i weld ym mha ffordd y gallem fesur effeithlonrwydd ac arbedion a wnaethpwyd trwy alinio rhaglenni a lleihau gweinyddiaeth. Rhan allweddol o hwyluso'r arbedion hyn fydd dyluniad y mecanweithiau grant ac i ba raddau y maent yn sicrhau atebolrwydd a gweinyddu effeithiol. Bwriad y dull cyd-gynhyrchiol clir iawn rydym yn ei ddefnyddio i ddatblygu'r ddau grant yw cyflawni'r canlyniad hwn.

Cynnydd yn erbyn argymhellion sy'n weddill y Pwyllgor

Mae Atodiad B yn nodi'r cynnydd yn erbyn argymhellion sy'n weddill y Pwyllgor. Yn benodol o ran Argymhelliad 10, mae'n werth bwysleisio'r heriau a grëwyd gan wneud unrhyw newidiadau i'r fformiwla dyrannu a gallai hyn gael effaith ar y gwasanaeth cyflenwi i unigolion sy'n agored i niwed. Gan ystyried y gallai'r effaith fod yn eithaf difrifol, rydym wedi ymrwymo i broses ymgysylltiedig iawn i ddatblygu ffordd ymlaen. Disgwyliwn gwblhau ein gwaith dadansoddi a datblygu cynigion ar gyfer ymgynghoriaeth erbyn yr hydref 2019. Bydd hyn hefyd yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r amserlenni angenrheidiol ar gyfer gweithredu graddol.

Gweithio'n Rhanbarthol

Rydym wedi cychwyn ar y gwaith gyda'r Pwyllgorau Cydweithrediadol Rhanbarthol i ystyried beth fyddai'r trefniadau llywodraethu gorau ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Bydd sut i sicrhau set gadarnhaol o berthnasau, mecanweithiau adrodd ac atebolrwydd i strwythurau eraill megis Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol yn ffurfio rhan fawr o'n trafodaeth gyda rhanddeiliaid ar y mater hwn.

O ran ein gwaith ehangach ar drefniadau rhanbarthol, mae'r Gweithgor Llywodraeth Leol wedi gofyn i waith pellach gael ei gyflawni i ystyried y gorgyffwrdd rhwng strwythurau rhanbarthol gwahanol a chwmpas ar gyfer rhesymoli. Caiff y gwaith hwn ei gyflwyno i'r Gweithgor yn y Flwyddyn Newydd ac efallai y dymunent wneud argymhellion i'w newid. Bydd ein gwaith mapio'n dangos y gorgyffwrdd a'r arwahanrwydd yn weledol.

Bydd angen i unrhyw argymhellion gael eu hystyried gan y Gweinidogion perthnasol a Llywodraeth Cymru ar y cyd, yn ogystal â chynnal trafodaeth drylwyr gyda chydweithwyr llywodraeth leol.

Gallaf gadarnhau ein bwriad i drafod ail-dendro gyda'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff unrhyw eglurhad angenrheidiol ei gynnwys yn y canllawiau ar gyfer y Grant Cymorth Tai newydd.

Disgwyliwn i'r gwaith o ddatblygu canllawiau ar gyfer y grant Cymorth Tai a'r Grant Plant a Chymunedau fod yn broses dau gyfnod. Bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r canllawiau rhaglen presennol a darperir canllawiau atodol ar ddiwedd mis Ionawr 2019. Bydd hyn yn nodi unrhyw amrywiadau i'r canllawiau presennol ac mae wedi'i ddylunio i lyfnhau'r broses weinyddol. Ein bwriad yw darparu canllawiau mwy sylweddol ar gyfer 2020/21. Trwy'r dull cyd-gynhyrchiol rydym yn ei ddefnyddio mae gofyniad am ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid a chyfnod hirach i'w ddatblygu.

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Trefniadau grant ar gyfer 2019-20

Dosbarthwyd llythyron grant dangosol cyn y Nadolig ac anfonir llythyr dyfarnu grant terfynol ym mis Mawrth 2019. Fel yn flaenorol, bydd y Grant Cymorth Tai yn gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno Cynlluniau Gwario a Chyflenwi cyn diwedd mis Ionawr 2019.

O ran y fframwaith Canlyniadau, amlinellodd yr Adroddiad Gwerthuso Dros Dro gynigion ar gyfer fframwaith canlyniadau. Bydd ystyriaeth bellach o'r fframwaith yn ffurfio rhan o gyfnod nesaf y gwaith gwerthuso yn gynnar yn 2019. Bydd hon yn broses ailadroddol a bydd yn cynnwys ymgynghori penodol â rhanddeiliaid. Bydd hyn hefyd yn cymryd i ystyriaeth y gwaith mewnol a gyflawnwyd ar gyfer datblygu fframwaith sydd wedi cynnwys dau o awdurdodau lleol y cynllun braenaru.

Roedd nifer o faterion ychwanegol y dymunech dderbyn eglurhad yn eu cylch ac rwyf wedi gosod y rhain isod.

Y Gyllideb Gyffredinol

Ymddangosodd y gyllideb ddrafft yn 2019-20 yn llai nag y cyhoeddwyd yn flaenorol oherwydd nad oedd tair rhaglen y cawsant eu cynnwys yn y gyllideb *EIPS* wreiddiol yn ffurfio rhan o'r 10 cynllun braenaru. Y rhain oedd:

- Grant Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (£2.438 miliwn);
- Cydraddoldeb a Chynhwysiant (£360,000); a
- Grantiau Eiriolaeth (£550,000).

Cyfanswm y tri grant hyn yw £3.348 miliwn ac maent yn cyfrif am y gwahaniaeth rhwng cyllideb 2018-19 o £265.553m a chyllideb 2019-20 o £262.205m.

Erbyn hyn mae'r grantiau hyn yn eistedd mewn Prif Grwpiau Gwariant gwahanol (*MEG*).

Ar y cyfan, rydym yn adfer £13.4 miliwn i'r rhaglenni sy'n cefnogi ymyrraeth gynnar, ataliaeth. Mae'r swm hwn o £13.4 miliwn yn cynnwys £5 miliwn a glustnodwyd yn flaenorol ar gyfer y cynnig gofal plant, a dyrannu £8.4 miliwn ychwanegol o gronfeydd.

Mae'r grant Ariannu Hyblyg ar gyfer 2018-19 yn cynnwys y rhaglenni canlynol:

Hybu Ymgysylltu Cadarnhaol ar gyfer Pobl Ifainc mewn Perygl o Droseddu
Gofal Plant a Chwarae
Cronfa Dydd Gŵyl Dewi
Y Gronfa Waddol
Teuluoedd yn Gyntaf
Dechrau'n Deg
Cymunedau am Waith a Mwy
Cefnogi Pobl
Atal Digartrefedd
Gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Ceir rhestr gyflawn o grantiau a dyraniadau cyllideb ar gyfer 2019-20 yn **Atodiad A**.

Cyllideb Grant Plant a Chymunedau (*CCG*) 2019-20
Y gyllideb *CCG* a gyhoeddwyd yw £135.442 miliwn, cytunwyd i drosglwyddo £1 miliwn ychwanegol o Atal Digartrefedd i Gronfa Dydd Gŵyl Dewi a fydd yn ffurfio rhan o ariannu'r Grant Plant a Chymunedau. Felly, y gyllideb sydd ar gael erbyn hyn yw £136.442 miliwn ar gyfer 2019-20.

Cyllideb Grant Cymorth Tai (*HSG*) 2019-20
Erbyn hyn y gyllideb ar gyfer y Grant Cymorth Tai yw £126.763 miliwn, sy'n cynnwys Cefnogi Pobl (£123.688), Atal Digartrefedd (£2.8 miliwn) a gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru (£275,000).

Ar gyfer 2018-19 a 2019-20, yn unol â'r cytundeb Cyllideb gyda Phlaid Cymru, disgwylir i awdurdodau lleol ddyrannu ariannu i'r rhaglenni Cefnogi Pobl (*SP*) ar lefel y dyraniad *SP* fel lleiafswm, oni bai y gallant ddangos eu bod yn cyflenwi'r un gwasanaethau neu wasanaethau gwell am lai o arian o ganlyniad i fesurau effeithlonrwydd.

Adborth ar farn awdurdodau lleol a gododd o'r gwerthusiad dros dro a chyfathrebu ag awdurdodau lleol

Darparwyd gwerthusiad dros dro i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo â deall sut i reoli'r rhaglen newid y tu ôl i'n penderfyniadau ar strwythur y grant.

Diben y rhaglen rheoli newid hon yw creu dull newydd, integredig ar gyfer cynllunio a chyflenwi gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed, lle yn aml y mae anghenion yn ymestyn y tu hwnt i strwythurau traddodiadol ein mecanweithiau grant. I'r diben hwn, rydym wedi darparu cyfleoedd trwy gyfarfodydd rhanbarthol i awdurdodau ddod ynghyd a rhannu dysgu. Yn enwedig mae'r dysgu y gall awdurdodau'r cynllun braenaru ei gynnig i awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o'r cynllun braenaru wedi bod wrth wraidd dyluniad y cyfarfodydd hyn ac mae nifer o gysylltiadau/perthnasau bydio wedi'u sefydlu trwy ein gwaith ymgysylltu hyd yma.

Myfyrio a thrafod gyda'r gwerthuswyr o ran a ellir enwi'r saith awdurdod lleol a oedd yn rhan o gynllun peilot y cynllun braenaru i alluogi awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o'r cynllun braenaru i drafod y dulliau a weithredwyd.

Cynhaliwyd hyn fel gwerthusiad annibynnol. Ein nod oedd sicrhau bod y gwaith a gyflawnwyd yn sicrhau bod y wybodaeth a roddwyd i ni yn gyfoethog ac yn bwrpasol. Cytunodd ein gwerthuswyr, Wavehill, y canlynol gyda chyfweledigion.

Bydd unrhyw sylwadau a roddir gennych yn gyfrinachol a chaiff y wybodaeth a ddarperir gennych ei defnyddio at ddibenion ymchwil a gwerthuso yn unig. Ni chaiff y sylwadau a roddir gennych eu priodoli i chi nac i'ch sefydliad. Golyga hyn y bydd yn amhosib i unrhyw un eich adnabod trwy unrhyw adroddiadau cyhoeddedig oherwydd bydd y wybodaeth yn ddienw.

Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r tîm sy'n cynnal y gwerthusiad yn gweithio i Lywodraeth Cymru, eich cyflogwr neu unrhyw un o'r sefydliadau sy'n rhan o gyflawni neu ariannu'r prosiect hwn.

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Ar sail hyn, ni allwn ddarparu manylion pellach am saith awdurdod lleol y cynllun braenaru, oherwydd ystyrir urddas yr amod hwn yn rhan bwysig o fethodoleg gadarn gan ymchwilwyr. Byddem yn deall llai pe na allem wneud yr ymrwymiad hwn. Fodd bynnag, fel ar gyfer y cwestiwn blaenorol, rydym wedi creu cyfleoedd rhanbarthol i awdurdodau ddod ynghyd a rhannu dysgu ac yn ystod y cyfarfodydd rhanbarthol hynny mae'r awdurdodau lleol a oedd yn rhan o'r cynllun braenaru wedi rhannu eu gwersi a ddysgwyd gyda'r awdurdodau lleol nad oeddent yn rhan o'r cynllun braenaru.

<u>Gwaith paratoi a gyflawnwyd o ran yr effaith asesu y gall Brexit ei chael ar y Rhaglen Cefnogi Pobl.</u>
Mae'r risgiau'n ymwneud â Gadael yr UE wedi'u hystyried yn ystod proses gynllunio Uwch Dîm Rheoli y Gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio. Adnabuwyd set eang o risgiau ar draws y Grŵp, er nad oedd unrhyw un ohonynt yn unigryw i'r Rhaglen Cefnogi Pobl.

Mae'r risgiau a adnabuwyd ar gyfer y Grŵp yn ei gyfanrwydd mewn meysydd megis gwytnwch, cyllidebau, deddfwriaeth, gweithlu, cyflenwad tai ac isadeiledd digidol. Mae'r sefyllfa ynghylch Gadael yr UE wrth gwrs yn parhau yn aneglur. Fodd bynnag, ymhlith y gweithredoedd lliniarol sydd mewn lle ar hyn y bryd mae:

- Trefniadau llywodraethu clir gan gynnwys sefydlu Grŵp Pontio Ewrop.
- Diogelwyd swyddi Gadael yr UE ychwanegol yn Llywodraeth Cymru.
- Ymgysylltu gweithredol yn y Grŵp Swyddogion Pontio Ewrop wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet a'r Swyddfa Gartref i sicrhau ein bod yn rhannu ymagwedd gyson tuag at asesu risg.

Credaf fy mod wedi mynd i'r afael â phob un o'r materion a godwyd gyda mi yn ystod y sesiwn rhoi tystiolaeth ac yn eich llythyr dilynol ond os bydd angen gwybodaeth neu eglurhad pellach arnoch chi yna rhowch wybod i mi.

Yn gywir,

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Atodiad A

Rhestr o'r holl grantiau sy'n rhan o'r broses o roi dau grant ynghyd â'r gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer 2019-20

Grant Cymorth Tai

Rhaglen	£miliwn	Disgrifiad
Cefnogi Pobl	123.688	Galluogi pobl sy'n agored i niwed, mewn perygl o ddigartrefedd, i fyw mor annibynnol â phosib trwy ddarparu gwasanaethau cymorth yn ymwneud â thai.
Atal Digartrefedd	2.800	Ariannu gwasanaethau ac ymchwil sy'n lleddfu digartrefedd a di-wreiddiau trwy naill ai: a. Cynorthwyo pobl ddigartref, pobl mewn perygl o fod yn ddigartref i'w hatal rhag colli eu cartrefi; b. Darparu tai, cyngor, cymorth a/neu lety arbenigol nad yw ar gael yn rhwydd yn unman arall.
Gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol gynt)	0.275	Mae'r grant hwn yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol i'w helpu i godi ymwybyddiaeth ac i orfodi cynllun Rhentu Doeth Cymru – cynllun trwyddedu ar gyfer landlordiaid ac asiantiaid.

Dyraniadau cyllideb Grant Plant a Chymunedau, 2019-20

Rhaglen	£miliwn	Disgrifiad
Dechrau'n Deg	73.772	Rhaglen gyfarwyddol yn seiliedig ar dystiolaeth ryngwladol o'r hyn sy'n gweithio, mae rhaglen Dechrau'n Deg yn targedu plant 0 i 3 oed yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.
Teuluoedd yn Gyntaf	35.978	Wedi'i dylunio i wella canlyniadau ar gyfer plant, pobl ifainc a theuluoedd gan roi pwyslais ar ymyrraeth gynnar, ataliaeth a rhoi cymorth i deuluoedd cyfan yn hytrach nag i unigolion.

Y Gronfa Waddol	6.000	Nod y gronfa yw cynnal elfennau mwyaf effeithiol y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cymunedau gwydn.
Cymunedau am Waith a Mwy (Grant Cyflogadwyedd gynt)	11.967	Mae'r grant yn un o'r mesurau lliniarol yn dilyn y penderfyniad i ddod â'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf i ben. Yn bennaf bydd yn ariannu'r isadeiledd (gan gynnwys refeniw ar gyfer adeiladau cymunedol allweddol) i alluogi i'r gwaith o gyflenwi'r rhaglen Cymunedau am Waith barhau. Yn ogystal mae'r grant yn darparu lefel uwch o hyblygrwydd i ddiwallu blaenoriaethau lleol ac i sicrhau bod cymorth cyflogaeth yn cael ei ddarparu i bob unigolyn mewn perygl o dlodi, nid y sawl sy'n gymwys i dderbyn cronfeydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn unig.
Hybu Ymgysylltu Cadarnhaol ar gyfer Pobl Ifainc mewn Perygl o Aildroseddu	4.425	Lleihau ac atal troseddu gan bobl ifainc.
Gofal Plant a Chwarae	2.300	Cynnig lefel ddigonol o gyfleoedd gofal plant a chwarae y tu allan i'r ysgol mewn ardal awdurdod lleol.
Cronfa Dydd Gŵyl Dewi	2.000	Cefnogi pobl ifainc sydd yng ngofal awdurdod lleol neu sydd wedi bod ynddo. Ychwanegwyd £1 miliwn i *CCG* yn ddiweddar o Atal Digartrefedd ac ni fydd yn ymddangos yn y gyllideb gyhoeddedig ar hyn o bryd.

ATODIAD B Diweddariad ar Argymhellion *PAC*

Rhif	Argymhelliad	Statws – Diweddariad mis Rhagfyr 2018
1	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer y Rhaglen yn gyflym er mwyn rhoi'r eglurder sydd ei angen ar nodau ac amcanion cyffredinol y Rhaglen. O leiaf, gellid darparu'r canllaw hwn ar gyfer y tymor byr, yng nghyd-destun y cynigion ar gyfer grant integredig newydd a goblygiadau adolygiad Llety â Chymorth Llywodraeth y DU.	**Cwblhawyd** Cyhoeddwyd canllawiau ar 30ain Gorffennaf 2018 https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/publications/sppgguide/?skip=1&lang=cy
2	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n agos â sefydliadau rhanddeiliaid allweddol wrth werthuso effaith prosiectau peilot ariannu hyblyg a phennu cwmpas ac amseriad unrhyw integreiddio pellach o ran grant, sy'n effeithio ar y Rhaglen Cefnogi Pobl y tu hwnt i 2018-19.	**Cwblhawyd** Nododd ddatganiad y Gweinidog ar 3 Hydref 2018 y penderfyniad dau grant a'r sail y cafodd ei ffurfio arni. Cewch hyd i'r datganiad yma; https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/flexible-funding-programme/?skip=1&lang=cy
3	Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn aros a meddwl am ei ffordd o werthuso dichonoldeb cynnig grant integredig. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymestyn amserlen y prosiectau peilot ariannu hyblyg er mwyn sicrhau y gellir cynnal archwiliad trylwyr a manwl o'u heffaith.	**Gwrthodwyd**
4	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i gwaith gwerthuso, yn nodi'n glir i ba raddau y mae awdurdodau lleol unigol wedi manteisio ar yr	**Parhaus** Dangosodd y gwerthusiad dros dro y potensial am ganlyniadau

Rhif	Argymhelliad	Statws – Diweddariad mis Rhagfyr 2018
	hyblygrwydd cyllido a ddarperir a sut mae hyn wedi cynnal gwell canlyniadau	gwell o ganlyniad i wasanaethau y maent wedi'u hintegreiddio'n well a phwysleisiodd amrywiaeth o gyfleoedd am alinio rhwng y grantiau y maent wedi'u cynnwys yn nhrefniadau'r cynllun braenaru. Ar ôl adolygu canfyddiadau'r gwerthusiad yn ofalus a rhoi ystyriaeth i farn rhanddeiliaid, penderfynodd Gweinidogion y dylai'r grant Ymyrraeth Gynnar a'r grant Ataliaeth gael ei rannu'n ddwy, gan wahanu'r grantiau'n ymwneud â thai o elfennau nad ydynt yn rhai'n ymwneud â thai.
5	Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r gwaith o hwyluso monitro canlyniadau cymharol ar gyfer gwahanol grwpiau o gleientiaid. Hoffai'r Pwyllgor glywed hefyd, am ganlyniadau gwaith gwerthuso ehangach Llywodraeth Cymru ac mae'n argymell bod canfyddiadau'r gwerthusiad yn cael eu hadrodd inni yn ffurfiol.	**Parhaus** Ar 3 Hydref 2018, cyhoeddwyd adroddiad y gwerthusiad dros dro ar waith cynllun braenaru'r ariannu hyblyg. https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-flexible-funding-programme/?skip=1&lang=cy Canlyniadau'r gwaith Bydd Wavehill yn rhoi ystyriaeth bellach i ddull fframwaith canlyniadau fel rhan o gyfnod nesaf y gwerthusiad a bydd yn rhoi argymhellion. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys mewnbwn gan awdurdodau lleol a phartïon eraill â buddiannau, fel rhan o'n dull cyd-weithrediadol parhaus.
6	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried y grantiau y mae'n bwriadu eu cynnwys mewn ffrwd ariannu integredig, ac ystyried yn arbennig, fel rhan o ddatblygiad yn y dyfodol, rinweddau cymharol integreiddio Cefnogi Pobl â grantiau tai a digartrefedd yn unig.	**Cwblhawyd** Ar 3 Hydref 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweinidog dros Dai ac Adfywio Ddatganiad Ysgrifenedig (dolen isod) yn cyhoeddi adroddiad y gwerthusiad dros dro ar waith cynllun braenaru'r ariannu hyblyg a gan hefyd nodi eu penderfyniad ar gyfer trefniadau ariannu'r dyfodol.

Rhif	Argymhelliad	Statws – Diweddariad mis Rhagfyr 2018
		https://beta.llyw.cymru/node/5994
7	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mesur yn glir faint o arbedion ariannol y gellir eu cronni drwy leihau costau gweinyddol a darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon drwy ei chynigion grant integredig. Dylai'r gwerthusiad hwn gynnwys sicrwydd bod yr arbedion effeithlonrwydd y gellir eu cyflawni yn yr ardaloedd braenaru yn rhai y gellir eu cyflawni'n rhwydd mewn mannau eraill.	**Gwrthodwyd**
8	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro rôl y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yng nghyd-destun y prosiectau peilot ariannu hyblyg ac os bydd unrhyw grant integredig yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol.	**Cwblhawyd** Noda'r canllawiau yn gysylltiedig â'r grant sengl a ddosbarthwyd i awdurdodau lleol sy'n rhan o'r cynllun braenaru y dylai awdurdodau lleol "barhau i ymgysylltu â Phwyllgorau Cydweithrediadol Rhanbarthol yn yr un ffordd ag y maent ar hyn o bryd". Disgwyliwn y dylai awdurdodau lleol barhau i gyflwyno eu hasesiadau a'u cynlluniau i'w Pwyllgorau Cydweithrediadol Rhanbarthol a chymryd rhan yn y cyd-drefniadau gydag awdurdodau eraill fel y gwnaed hyd yma. Mae'r gwerthusiad annibynnol wedi cynnwys Pwyllgorau Cydweithrediadol Rhanbarthol yng ngwaith yr arolwg i sicrhau ei fod yn dal eu barn. Rhoddodd diwrnod Datblygu *SPNAB* a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2018, a oedd yn cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Cydweithrediadol Rhanbarthol, gyfle i Bwyllgorau Cydweithrediadol Rhanbarthol roi

Rhif	Argymhelliad	Statws – Diweddariad mis Rhagfyr 2018
		mewnbwn/adborth ar y gwaith o ddatblygu'r Grant Cymorth Tai. Byddwn yn parhau i weithio gyda Phwyllgorau Cydweithrediadol Rhanbarthol i sicrhau ein bod yn adnabod arfer gorau a all gyfrannu'n gadarnhaol o fewn unrhyw drefniadau grant newydd.
9	Ynghyd â'i gwerthusiad o'r prosiectau peilot ariannu hyblyg, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad brys i ganfod a oes comisiynwyr yn cael trafferth denu ceisiadau am wasanaethau Cefnogi Pobl oherwydd ansicrwydd ariannu.	**Cwblhawyd** Cysylltwyd â thimau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol i drafod eu profiadau. Nid oedd yr ymarferiad yn pwysleisio unrhyw achos o bryder sylweddol o ran denu cynigwyr o ganlyniad i ansicrwydd ariannol.
10	Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch ei hymateb i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol ar y fformiwla ariannu i egluro ei bwriad. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys manylion ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dyrannu'r gyllideb gyffredinol i awdurdodau lleol ar gyfer unrhyw grant integredig gan sicrhau hefyd ei bod yn seiliedig ar anghenion.	**Parhaus** Disgwyliwn y byddwn wedi cwblhau ein gwaith dadansoddi a datblygu cynigion ar gyfer ymgynghori arnynt erbyn yr hydref 2019 a bydd yr amserlenni hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r amserlenni angenrheidiol ar gyfer gweithredu graddol.
11	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei hymrwymiad i'r camau a nododd eisoes mewn ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch gwasanaethau anableddau dysgu a meincnodi costau gwasanaethau.	**Parhaus** Mae'n bleser gennym gadarnhau'r ymrwymiad hwn a'r amserlenni. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Phwyllgorau Cydweithrediadol Rhanbarthol i adolygu gwasanaethau Anableddau Dysgu fel rhan o'r prosiect i gyflenwi'r Grant

Rhif	Argymhelliad	Statws – Diweddariad mis Rhagfyr 2018
		Cymorth Tai. Bydd hyn yn hwyluso penderfyniadau am drefniadau'r dyfodol ar gyfer yr ariannu hwn erbyn mis Ebrill 2020.
12	Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn edrych yn yr un modd ar y mater o amrywiad rhwng awdurdodau lleol yn y ddarpariaeth Cefnogi Pobl ar gyfer grwpiau penodol eraill, gan gynnwys unrhyw wahaniaethau amlwg yn y math o gefnogaeth, h.y. sefydlog neu amrywiol.	**Parhaus** Mae'r gwaith parhaus i ddatblygu'r Grant Cymorth Tai yn cynnwys llif gwaith i roi ystyriaeth i'r materion dosbarthu o fewn y rhaglen Cefnogi Pobl ac erbyn hyn y set ehangach o grantiau gan ystyried y penderfyniad i ohirio cymhwyso 'fformiwla Aylward' yn 2015**.** Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn yr hydref 2019 er mwyn galluogi i sefydlu eglurder i'w roi ar waith o fis Ebrill 2020.
13	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad a hyfforddiant cynhwysfawr i sicrhau bod unrhyw fframwaith canlyniadau diwygiedig, ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl, neu unrhyw grant integredig newydd, wedi'i ddeall yn iawn a'i ddefnyddio'n gyson ledled Cymru o'r dechrau.	**Parhaus** Rydym yn cydnabod pa mor bwysig ydyw i ddefnyddio'r fframwaith mewn ffordd gyson a chywir a byddwn yn cefnogi comisiynwyr a darparwyr i gyflenwi hyn trwy ganllawiau a hyfforddiant. Mae'r gwelliannau rydym yn ceisio eu gwneud i'r broses ariannu gwasanaethau cymorth a gwasanaethau ataliol ar wella ffocws pawb ar y canlyniadau a gyflawnwyd ac mae'n hanfodol y gallwn ddefnyddio fframweithiau canlyniadau i ddal partïon i gyfri'n gywir trwy wybodaeth gadarn a chredadwy. Caiff y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r fframwaith ei ddylunio i gyflawni hyn. Amlinellodd yr Adroddiad Gwerthuso Dros Dro a luniwyd gan Wavehill ac a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018 eu cynigion ar gyfer fframwaith canlyniadau. Bydd ystyriaeth bellach o ddull fframwaith canlyniadau'n ffurfio rhan o gyfnod nesaf y

Rhif	Argymhelliad	Statws – Diweddariad mis Rhagfyr 2018
		gwerthusiad yn gynnar yn 2019. Bydd hon yn broses ailadroddol a bydd yn cynnwys ymgynghori pellach â rhanddeiliaid. Bydd hefyd yn cymryd i ystyriaeth y gwaith mewnol a gyflawnwyd ar ddatblygu'r fframwaith megis y gweithdy mewnol (yn cynnwys dau awdurdod lleol) a gynhaliwyd ym mis Hydref.